




TCIA!

Tystysgrif Cymhwysedd Iaith Athrawon



Y Cefndir

Mae'r dystysgrif wedi ei chyflwyno ar sail cais gan **Lywodraeth Cymru** yn 2014 i'r **Cyngor Cyllido Addysg Uwch** i ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd iaith Addysg Gychwynnol Athrawon gyda'r nod o'i dyfarnu i bob athro arfaethedig a fydd yn dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r **Cyngor Cyllido** wedi gofyn i'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** i gydlynu'r gwaith ar ei rhan.




Pwrrpas y Dystysgrif

Prif nod y dystysgrif newydd hon yw cydnabod lefel sgiliau ieithyddol (llafar ac ysgrifenedig) myfyrwyr a dangos gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hyderus ac mewn modd proffesiynol yng nghyd-destun dysgu ac addysgu.



Criw Peilota

Yn ystod 2015/16, myfyrwyr TAR Cynradd ac Uwchradd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru'n unig a fydd yn cael cyfle i ymgeisio am y dystysgrif. Bydd pawb a fydd yn llwyddo yn derbyn tystysgrif cyn mis Medi 2016.




Amodau'r Dystysgrif

- Llenwi ffurflen gofrestru
- Derbyn o leiaf 25 awr o sesiynau gloywi iaith
- Cwblhau PAP2 drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cwblhau arholiad ysgrifenedig (Mai 26 & 27ain)
- Cwblhau asesiad llythrennedd drwy gyfwyng y Gymraeg (PAP2)



Asesiad Llythrennedd

- Asesiad o'u gallu i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyfrif 60% tuag at y marc terfynol.
 - Bydd dwy ran i'r asesiad llythrennedd
 - i) Safon llythrennedd personol a (gwerth 30%)
 - ii) Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr (gwerth 30%)
- 

Meini Prawf

Safon Llythrennedd Personol Hyfforddeion (30%)

- Gweler 'Ffurflen cyflwyno marciau argraff' / Rhan 1: Meini prawf safon llythrennedd personol hyfforddeion (30%)
- Llinell amser:

Ebrill 18 (Wythnos Gynefino/ Arsylwi)

Ebrill 25 (Wythnos 1): Adolygiad Diwedd Wyth.: Targed(au)

Mai 2 Myfyrwyr yn y Brifysgol

Mai 9 (Wythnos 2): Asesiad Ffurfiannol: Targed(au)





Mai 16 (Wythnos 3): Cwblhau 'Ffurflen cyflwyno marciau argraff'

Mai 23 (Wythnos 4) : 'Marc Argraff' i gyrraedd y Ganolfan Hyfforddi Athrawon (LD)

Ydy hyn yn mynd i olygu llawer mwy o waith?

- Nid oes rhaid i chi ddysgu gramadeg i fyfyrwyr.
- Tynnu eu sylw at wallau amlwg ydy'r peth pwysig.
- Mater iddyn nhw wedyn ydy mynd ati i ddefnyddio adnoddau gramadegol er mwyn deall sut i osgoi'r gwall yn y dyfodol.

Adnoddau: Dysgu Hunangyfeiriedig



Gwefan:-

<http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau-dysgu/fideos/>

Adnoddau: Dysgu Hunangyfeiriedig

Gwefannau:-

<http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/gweithgareddau-sabothol/>

<http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/cbac/>

<http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/cywirdeb-iaith/>

<http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/tasgau/index.html>

Yn ymarferol felly.....

Llythrennedd personol:

- Ydy'r myfyriwr yn gwneud gwall llafar wrth siarad gyda'r plant?
- Ydy'r myfyriwr yn dueddol o ddweud 'OK' (neu debyg)?
- Os sylwch chi ar wallau mewn taflenni gwaith/ pwerbwynt yna ewch ati i gywiro'r gwallau cyn i'r adnodd gael ei ddefnyddio.
- Pan roddir cynllun y wers i chi ar gyfer yr arsylwad ffurfiol, cywirwch unrhyw wall sy'n dal eich lygad ar y cynllun – yn enwedig os ydy'r gwall hwnnw yn un sy'n cael ei ail adrodd yn gyson neu yn un y bydd y myfyriwr yn debyg o'i ail adrodd yn y dyfodol.

Taith Fy Iaith



Map Iaith.....

Blwyddyn

Cwrs TAR|

Fy Nhargedau

Bydd y targedau hyn yn deillio o'r adborth y byddwch chi'n brofiadau dysgu, yn ogystal â'ch gwaith ar y modiwl hwn. darlith, bydd tiwtoriaid Canolfan Peniarth yn trafod y targed cynorthwyo i weithio tuag at eu cyrraedd.

Dyddiad	Targed (dylech gynnwys manylion y modiwl a/neu brofiad dysgu fan hyn hefyd os yw'r targed yn deillio o adborth modiwl arall)

edd p

Cynllun Marcio Iaith

Marc	Beth yw'r gwall?
	Berfau Ydy amser a pherson y ferf yn gywir? Allech chi fod wedi defnyddio'r flurf gryo?
	Sillafu/geirfa Gwiriwch fod y gair wedi ei sillafu'n gywir. Ydych chi wedi anghofio'r acen? Ydych chi wedi defnyddio'r gair cywir e.e dysgu/addysgu neu yn/mewn?
	Cystrawen neu gywair Ydych chi wedi cyffeithu'n llythrennol o'r Saesneg? Ydy'r frawddeg yn dilyn y patrwm cywir yn y Gymraeg o ran y ferf, y goddrych, a'r gwrthrych? Ydych chi wedi defnyddio'r cywair cywir e.e ffurfiol/anffurfiol/llafar?
	Treiglo Ydych chi wedi treiglo lle nad oes angen? Ydych chi wedi defnyddio'r treigladau anghywir?
	Y geiriau bach Ydych chi wedi rhedeg yr arddodiad yn gywir? Ydych chi wedi defnyddio'r rhagenw cywir? Ydych chi wedi defnyddio'r arddodiad cywir? Ydych chi wedi anghofio cynnwys y rhagenw? Ydych chi wedi defnyddio'r fannod yn gywir?
	Atalnodi Ydych chi wedi defnyddio priflythrennau'n gywir? Ydych chi wedi atalnodi'n gywir?

DS - Dylanwad y Saesneg

Meini Prawf

Gallu i gymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr (30%)

- Gweler 'Ffurflen cyflwyno marciau argraff' / Rhan 2: Gallu i gymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr (30%)
- Llinell amser:

Ebrill 18 (Wythnos Gynefino/ Arsylwi)

Ebrill 25 (Wythnos 1): Adolygiad Diwedd Wyth.: Targed(au)

Mai 2 Myfyrwyr yn y Brifysgol

Mai 9 (Wythnos 2): Asesiad Ffurfiannol: Targed(au)

Mai 16 (Wythnos 3): Cwblhau 'Ffurflen cyflwyno marciau argraff'

Mai 23 (Wythnos 4) : 'Marc Argraff' i gyrraedd y Ganolfan Hyfforddi Athrawon (LD)

Pa fath o wallau ydy'r rhai pwysicaf i'w cywiro?

(Rhai awgrymiadau...)

- atebion cadarnhaol**
- gwallau cystrawen cyffredin e.e. 'fi gyda...'/ 'i gyd o..';**
- cenedl enwau e.e. 'dwyl bunt', 'tair merch';**
- cystrawen Seisnig e.e. "denu chi mewn" (bachu sylw); "go for it"; "spot on"**
- treigladau amlwg e.e. 'dyna ferch dda';**
- camsillafu geiriau cyffredin e.e. 'cyfathrebu'**
- trefnolion wrth nodi'r dyddiad;**
- cymysgu rhwng 'ti' a 'chi' yn yr un frawddeg**

Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau)

Daearyddiaeth (sgiliau):

- adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu â chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.
- mesur, casglu a chofnodi data trwy waith ymchwil ymarferol a gwaith maes a defnyddio ffynonellau eilaidd, e.e. defnyddio offer i fesur glaw, defnyddio GIS, cynllunio holiaduron.
- cyfleu'r casgliadau mewn ffyrdd amrywiol, e.e. defnyddio termau daearyddol, ffotograffau arnodedig, mapiau, diagramau neu TGCh.

Ystod:

- byw mewn gwledydd eraill: dwy gymdogaeth gyferbyniol mewn gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygu economaidd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- sut mae'r lle hwn yr un fath neu'n wahanol i'r lleoedd/amgylcheddau eraill a pham? Ydy'r lle bob amser yr un fath? Pam mae e'n newid?

Llythrennedd (FfLIRh)

Liafared: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth: Siarad:

- siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, ton a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr.
- archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl ymaent yn ei chwarae.
- defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Cydweithio a thrafod:

- cyfrannu'n bwriadus i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Rhifedd (FfLIRh)

Defnyddio sgiliau rhif: Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb:

- defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml, e.e. canfod 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn gyfwerth a ¼ o 60cm.
- cyfrifo symiau canrannol yn seiliedig ar 10%.

TGCh

Gyrchu'r rhyngwyd am wybodaeth. Cyflwyno gwybodaeth a syniadau trwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Meddwl

Ymchwilio a chynllunio ymchwiliadau, gan fyfyrwyr ar yr hyn a ddysgwyd.

ADCDF

Cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar lafar.

Iechyd - Pwysigrwydd dŵr glân i iechyd.

Treuliant a gwestraff – ffyrdd o leihau eu defnydd o ynni a defnydd eraill o ynni.

Gyda diolch i
Sally-Jo
Williams bl. 2 am
rannu'i
chynlluniau.

40
munud

Prif weithgareddau

Rhannu'r dosbarth mewn i grwpiau o 5/6 a phob grŵp yn gyfrifol am ran wahanol o'r adroddiad. Fe fydd y grwpiau wedi dosbarthu yn ôl galluedd y disgyblion. Bydd disgwyl i bob grŵp recordio 1-2 munud yr un ar eu hagwedd nhw o'r adroddiad. Fe fydd QR Codes ar bob grŵp i arwain y disgyblion i ffynonellau gwahanol i gasglu gwybodaeth. Fe fydd gan bob grŵp meini prawf llwyddiant gwahanol hefyd i'w chwblhau i sicrhau llwyddiant yn eu hagwedd nhw o'r adroddiad.

Gwahaniaethu:

- Isel - fe fydd y grŵp gallu isel yn canolbwyntio ar 'beth allwn wneud i arbed dŵr?' Fe fydd rhaid meddwl am bethau gallwn ni gwneud pob dydd i arbed dŵr?
- Canolig – fe fydd y grwpiau canolig yn canolbwyntio ar y cyflwyniad, faint yr ydym yn gwastraffu yn y DU, a defnydd dŵr yn y DU.
- Uchel – Fe fydd y grwp gallu uchaf yn canolbwyntio ar ddefnydd dŵr yn Kenya a'i gymharu gyda defnydd dŵr yn y DU. Canolbwyntio ar ddefnyddio ffeithiau ac ystadegau yn yr adroddiad.

Fe fydd ffynonellau gwahanol ar bob grwp. Pob grŵp yn derbyn iPad ond rhai yn derbyn ffynonellau ar bapur fel cymorth yn ystod y dasg.

AGD - arsylwi'r grwpiau gwahanol yn ystod y wers. Pa grwpiau sy'n gallu cyfleu'r wybodaeth ar ffurf fideo yn llwyddiannus? Pwy sy'n ymchwilio'n effeithiol gan ddefnyddio'r wybodaeth i liwio'r adroddiad? Pwy sy'n gallu cymharu'r gwahaniaethau rhwng y DU a Kenya heb drafferthion?

Strategaeth AGD – diweddsglo.

Safonau SAC 2009

Rhif 25

S3.2.5 Eu bod, gyda chymorth athro profiadol, yn gallu adnabod lefelau cyrhaeddiad y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu dysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith, neu i ffurf iaith, eu cartref. Eu bod yn dechrau dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu er mwyn rhoi sialens wybyddol yn ogystal â chefnogaeth ieithyddol.

S3.3.5 Eu bod yn gallu cefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu dysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith, neu i ffurf iaith, eu cartref, gyda chymorth athro profiadol pan fo hynny'n briodol.

Llinell Amser

Mai 23^{ain}: 3 diwrnod: (Paratoi & Arholiad: 26 & 27)

Mai 30^{ain}: Hanner Tymor: Myfyrwyr yn y Brifysgol

Mehefin 6^{ed}

Mehefin 13^{eg}:

Mehefin 20^{fed}: Cwblhau 'Ffurflen Adborth'

Mehefin 27^{ain}

Gorffennaf 4^{ydd} & 5^{ed}

Cyflwyno Ffurflen Adborth

- Defnyddir meini prawf ffurflen CYF_TCA001 i ddyfarnu marc terfynol o allu'r myfyriwr i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddwy elfen.
- Bydd y Tiwtor Prifysgol yn ymweld ar gyfer 'Ymweliad 2' rhwng Mehefin 20^{fed} - 23^{ain} er mwyn cynnal yr 'arsylwad ar y cyd' arferol a chymorth wrth lenwi'r 'Ffurflen Adborth'
- Bydd pob Tiwtor yn dychwelyd y 'Ffurflen Adborth' i'r Brifysgol yn dilyn yr arsylwad uchod.
- Yna bydd y Ganolfan (LD) yn cyflwyno'r marciau terfynol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol erbyn Mehefin 24^{ain} 2016.

Tiwtoriaid Cefnogi

Dr. Sioned Hughes



Nanna Ryder



Carys Richards

a finne!

Marc/ Gradd Tefynol

- I fod yn deilwng o'r dystysgrif, rhaid i fyfyrwyr i basio'r ddwy ran sef:-
 - i) Arholiad ysgrifenedig
 - ii) Asesiad llythrennedd personol (yn yr ysgol)
- Os methir un elfen bydd modd cadw'r marc llwyddo yn yr elfen arall ac ailsefyll un elfen yn unig. Fodd bynnag, ni ddyfernir dystysgrif tan y ceir marc llwyddo yn y ddwy elfen.

Sampl Cymedroli

- Bydd Marian Thomas (Y Cymedrolydd Cynradd) yn cymedroli'r sampl o ysgolion cynradd; a bydd Dr Elin Meek (Prif Arholwr y Dystysgrif) yn arsylwi rhai o'r ymweliadau cymedroli.
- Adnabyddir sampl o 10% (3 myfyriwr ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant).
- Cymedrolir cynrychiolaeth o'r ystod safonau (sef rhagorol/ da/ digonol).
- Amserlen cymedroli: Mehefin 13^{eg} & 14^{eg}

Llinell Amser

Mai 23^{ain}: 3 diwrnod yn unig

(Paratoi & Arholiad: 26 & 27)

Mai 30^{ain}: Hanner Tymor: Myfyrwyr yn y Brifysgol

Mehefin 6^{ed}

Mehefin 13^{eg}: Ymweliad Cymedrolydd Cynradd (13 & 14^{eg})

Mehefin 20^{fed}: Cwblhau 'Ffurflen Aborth' ar y cyd

Mehefin 27^{ain}

Gorffennaf 4^{ydd} & 5^{ed}: (Cwblhau 2 ddiwrnod ychwanegol)



Adborth am y Cynllun

➤ **Holiadur ar lein**

**Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn
cysylltu â chi maes o law drwy eich cyfeiriad
e-bost (ar gofrestr y sesiwn)**

Treuliau

Cyflenwi & Theithio

- Telir ffi cyflenwi i ryddhau mentoriaid i fynychu hyfforddiant (£75)
- Telir lwfans milltiroedd o 40c y filltir i'r Mentoriaid Cynradd. Bydd angen llenwi ffurflen ad hawlio costau Cyf_TCA008 a'i gwblhau ar y dydd neu ei ebostio i l.davies@uwtsd.ac.uk, neu bostio i Linda Davies,

Uwch ddarlithydd Cymraeg a Llythrennedd, Ystafell 206, Adeilad Carwyn James, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Campws Caerfyrddin, Caerfyrddin. SA31 3EP



**Can ddiolch am
fynychu a phob hwyl
wrth arsylwi.**